


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

Cyhoeddiad Data Gweithlu Llywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd y cyhoeddiad data diweddaraf o Ddata Gweithlu Practisiau Meddygon Teulu ym mis Ebrill 2022, yn seiliedig ar ddata Rhagfyr 2021 a gymerwyd o WNWRS. [Gweld sut mae'r wybodaeth rydych wedi'i nodi wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'r ddealltwriaeth o Ofal Sylfaenol ledled Cymru.](#)

A fydddech cystal â pharhau i ddiweddarau WNWRS gydag unrhyw newidiadau i'ch gweithlu, er mwyn sicrhau bod gennym y data mwyaf cywir posibl? Diolch i bob Tîm Practis sy'n gwneud hyn yn rheolaidd.



Ffocws ar: Rolau'r Aelodau Staff

Os bydd aelod o staff yn eich Practis yn newid rôl ei swydd, e.e. o fod yn Gynorthwydd gofal iechyd i fod yn Nyrs Practis, mae angen newid hyn yn WNWRS. I gofnodi hyn, rhwch ddyddiad terfynu yn ei hen gofnod staff a chreu cofnod newydd ar gyfer ei rôl newydd. Yn WNWRS nid oes angen cofnod newydd ar gyfer Meddyg Teulu sy'n newid ei statws YN UNIG a gellir diweddarau hwn trwy ddiwygio rôl ei swydd, e.e. o 'Cyflogir gan Feddygfa' i 'Partner/Darparwr'.

Oriau gwaith Meddyg Teulu

Ar gyfer unrhyw feddygon teulu sy'n gweithio y tu hwnt i'w horiau cytundebol yn rheolaidd, gall hyn gael ei gynnwys yn WNWRS a dylid ei gynnwys. Yn ei gofnod staff, a fydddech cystal â diwygio'r blwch Oriau Gwaith i adlewyrchu'r oriau wythnosol GWIRIONEDDOL y mae wedi eu gweithio. Gall hyn fod ar gyfartaledd dros y mis neu'r chwarter, yn dibynnu ar sefyllfa eich Practis. Bydd hyn wedyn yn bwydo'r system adrodd, gan amlygu'r oriau ychwanegol y mae Practis yn dibynnu arnynt i ddarparu gofal cleifion.

Archebu Meddyg Teulu Locwm

Byddwch yn ymwybodol, pan fyddwch yn archebu Meddyg Teulu Locwm, er mwyn diogelu eich Practis pe bai pryder yn cael ei godi, dylech sicrhau bod y Meddyg Teulu Locwm yn cadw at y gofynion yn Atodiad B y Cynllun ar gyfer GMPI, sef:

- 1) Mae wedi ei gynnwys/chynnwys ar Restr Cyflawnwyr Meddygol Cymru (MPL)
- 2) Mae wedi ei gynnwys/chynnwys ar Gofrestr Locwm Cymru Gyfan (AWLR)
- 3) Mae'r sifft wedi'i gofnodi ar Locum Hub Wales (GP Wales)

Os ydych chi'n archebu Meddyg Teulu Locwm trwy Locum Hub Wales mae'r holl wiriadau hyn yn cael eu gwneud ar eich rhan ac nid oes angen unrhyw gysoniad.

Os ydych yn archebu Meddyg Teulu Locwm drwy ddull arall, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio bod y Meddyg Teulu Locwm wedi cofnodi'r holl shifftiau a weithiwyd yn eich Practis yn [Locum Hub Wales \(GP Wales\)](#). Os sylwch ar unrhyw shifftiau a gofnodwyd yn eich Practis nad ydynt yn edrych yn gywir, cysylltwch â ni a byddwn yn ymchwilio. Os na allwch weld sifft sydd wedi'i weithio yn eich Practis, cysylltwch â'r Meddyg Teulu Locwm yn uniongyrchol a gofynnwch iddynt ddiweddarau Locum Hub Wales (GP Wales) cyn gynted â phosibl.

Syniadau ac awgrymiadau

Ddim yn siŵr a yw'r Meddyg Teulu Locwm yr ydych am ei archebu ar AWLR? Mae'r [Rhestr Cyflawnwyr Meddygol \(MPL\)](#) yn dangos i chi a yw'r Meddyg Teulu Locwm ar AWLR a phryd y dechreuodd ei ddyddiad cynnwys GMPI, drwy'r saeth ar y gwymplen ar ochr chwith cofnod y Meddyg ar yr MPL. Fel arfer gorau, nodwch rif AWLR unrhyw Feddyg Teulu Locwm rydych yn ei ddefnyddio, os ydych wedi gwneud trefniant y tu allan i Locum Hub Wales.

Tystysgrif Nawdd

Ydych chi am recriwtio Meddyg Teulu newydd? Yna efallai y bydd cael Trwydded i noddi Meddyg Teulu newydd gymhwyso yn opsiwn i chi. Mae PCGC yma i'ch cefnogi drwy'r broses hon – gweler y cyfathrebiad a anfonwyd gyda'r cylchlythyr hwn sydd â rhai diweddariadau pwysig ar y gwasanaeth hwn.

Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i:

NWSSP.CertificateofSponsorship@wales.nhs.uk

